

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw ag Irene Davies (Cefn Berain) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei mam ddechrau'r wythnos. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Yr ydym yn parhau i gyflwyno Menna Owen (Cefn Meiriadog) i'r Arglwydd yn ein gweddïau, gan hyderu y caiff adnabod Ei holl dangnefedd yn gwarchod drosti. Diolchwn am y gofal y mae'n ei brofi yn Ysbyty Glan Clwyd. Cofiw'n hefyd am Meurig, gan ddiolch am ei ofal yntau. Yn yr un modd, anfonwn ein cofion at Harold Lloyd (Tanyfron) sy'n parhau yn Ysbyty Bae Colwyn ac yn canmol ei le yno'n fawr!
- Treuliodd Llinos Burgess (Llansannan) rai dyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos diwethaf hefyd ond da deall ei bod wedi cael dod adref erbyn hyn, fel ag y cafodd Doreen Evans (Tanyfron), a hynny yn dilyn treulio cyfnod gofaith yn yr ysbyty. Diolchwn am y gofal a gafodd hithau gan y meddygon a'r nyrus, a gan ei theulu oll. Hyderwn y bydd Doreen a Llinos yn parhau i gryfhau, ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.
- Mae amryw eraill o'n plith heb fod yn dda eu hiechyd. Cyflwynwn hwy oll yn ein gweddïau gan hyderu y bydd pob un ohonynt yn adnabod nodedd a nerth yr Arglwydd yn eu gwendid.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Myra Hughes a Mrs Menna Streeter (Maes Elwy); Mr Elfed Davies (Plas Eleri); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Enid Jones (Plas Ogwen); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); a Mrs Mair Roberts a Miss Hannah Alice Jones (Yr Hen Ficerdy), gan ddiolch am y gofal arbennig y maent yn ei gael yno.
- Llongyfarchiadau i Sion Euros Evans (Llansannan) a Catrin ar enedigaeth merch fach, Ela Mai. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

I ddod

- Bydd **Gwasanaeth Nadolig i'r teulu yn Llanfair** am 11.00 dydd Sul, Rhagfyr 18fed, ac i ddilyn, cynhelir y Parti Nadolig yn y Neuadd Goffa.
- **Oedfa Garolau i'r Fro** yng Nghapel Cefn Meiriadog nos Sul, Rhagfyr 18fed am 6.00 gydag Andras Iago yn arwain yr addoliad.
- **Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Llanefydd** nos Sul, Rhagfyr 18fed am 6.30. Cesglir yr amlenni a ddsbarthwyd tuag at y Feibl Gymdeithas yn ystod y gwasanaeth (neu cyn y Sul hwnnw, os gwelwch yn dda). Gwerthfawrogir petaech yn llenwi'r rhan Rhodd Cymorth ar yr amlen, os yw hynny'n bosibl.
- **Oedfa i'r Fro bore Nadolig** yng Nghapel Henllan am 9.30.
- **Swper Nadolig 'Adnabod'** nos Fercher, Rhagfyr 28ain. Os ydach chi'n perthyn i un o'r grwpiau 'Adnabod', cadwch y dyddiad yn rhydd! Mwy o fanylion i ddilyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4^{ydd} Rhagfyr 2011

Cofiwch am y Noson Crefftau a Nwyddau Nadolig yn Festri Llansannan nos Iau am 7.30.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

“Gair disglair Duw – dyro d’olau i Gymru heddiw” - dyma fydd ein gweddi wrth i ni ddathlu Sul y Beibl hefo'n gilydd a gobeithio y cawn fendith yng nghwmni ein gilydd heddiw ac o gylch goleuni'r Gair.

Gair i'ch atgoffa o'n bwriad yn yr oedfa heno sef gwranddo ar ddarlleniadau o Efengyl Marc (Beibl.net/Cymdeithas y Beibl) ac yn dilyn fe fydd pagedi o'r Efengyl yn cael eu cyflwyno i bob capel a chynulleidfa i'w dosbarthu ymysg aelodau a chydabod. Y nod ydi gwneud cyfle i ni a'n teulu a'n ffrindiau ddarllen y Gair a chael golwg newydd ar fywyd Iesu. Dathlu'r Nadolig trwy ddarllen Efengyl Marc! Gobeithio y bydd hyn yn help i ni weld Iesu o'r newydd a rhyfeddu at ei berson a'i waith a'r rheswm pam y daeth i'r byd! Gobeithio hefyd, o ddarllen ac ystyried y geiriau o ddfri, y cawn oleuni arnom ein hunain i adnabod ein hangen am fwyd a chynhaliaeth ysbrydol. ‘Gwae i ni wybod y geiriau, heb adnabod y Gair.’

Dyma fydd trefn y darlleniadau:

- 📖 Eglwysi Llanfair a Chefn Meiriadog: 2: 1-12
- 📖 Eglwysi Llanefydd a Chefn Berain: 4: 1-12
- 📖 Eglwys Bethania: 6: 6-13
- 📖 Eglwysi Saron a Pheniel: 8: 12-30
- 📖 Eglwysi Nantglyn a Thanyfron: 11: 1-11
- 📖 Eglwysi Henllan a'r Groes: 14: 12-26
- 📖 Eglwysi Unedig Llansannan: 16: 1-8

Bydd Elen yn arwain yr oedfa ac fe fydd emynau a gweddïau rhwng y darlleniadau. Dewch i fwynhau'r oedfa a'r cyd-addoli.

“Ond syrthiodd peth o'r had ar bridd da. Tyfodd cnwd da yno – cymaint â thri deg, chwe deg neu hyd yn oed gan gwaith mwy na gafodd ei hau.” (Marc 4:8)

“Ond yr had sy'n syrthio ar dir da ydy'r bobl hynny sy'n clywed y neges ac yn ei chredu. Mae'r effaith ar eu bywydau nhw fel cnwd anferth – tri deg, chwe deg, neu hyd yn oed gan gwaith mwy na gafodd ei hau.” (Marc 4:20)

Awn allan i hau!!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **oedfa arbennig i ddathlu Sul y Beibl yn Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, a bydd cynrychiolaeth o bob eglwys yn darllen ychydig o gyhoeddiad diweddar Cymdeithas y Beibl o Efengyl Marc. Bydd Aneurin yn agor y gair a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn y Festri Llansannan am 8.00.
- lau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30
- **Noson Creffttau a Nwyddau Nadolig** yn Festri Llansannan am 7.30.
- Gwener • **C.I.C. Dolig** (dillad gorau!) yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mercher Cynhelir Cwis Nadoligaidd yng nghwmni Berwyn Morris dan nawdd y Gymdeithas yn Neuadd Goffa Llanfair am 7.30.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 a bydd ymarfer ar gyfer gwasanaeth Nadolig y plant yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a Mr Peter Smith yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00, a bydd y plant yn ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa undebol Sul y Beibl am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
Pwyllgor Adeiladau am 7.30. Croeso i bob aelod.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 11.15.
- Llun Myfyrdod y Nadolig wedi ei drefnu gan Gyfarfod Chwiorydd Cefn Berain yng nghwmni Sioned Nuss am 7.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Gareth Edwards yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau